Dwy flynedd o wneud newidiadau

Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cynnwys

02 Cyflwyniad

04 Crynodeb o'n gwaith dros y ddwy flynedd

06 Arwain y drafodaeth

08 **Pennod 1**
Gwaith

18 **Pennod 2**
Y cartref

26 **Pennod 3**
Y gymdogaeth

36 **Pennod 4**
Yr hunan

47 Rhestr o gyhoeddiadau

48 Cysylltiadau

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall cysylltwch â'r Comisiwn i drafod eich anghenion. Mae pob cyhoeddiad ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn fformatau amrywiol o'n gwefan **www.equalityhumanrights.com**

Mae'r cofnod hwn o'n dwy flynedd gyntaf yn nodi sut rydym wedi sicrhau manteision pendant i bobl Prydain mewn gwahanol agweddau ar fywyd bob dydd: yn y gwaith, yn y cartref, yn ein cymdogaethau a'n hymwneud â phobl eraill.

Cyflwyniad

Mae gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyffwrdd bywydau y 60 miliwn o bobl sy'n byw ym Mhrydain. Mae tegwch yn bwysig i bawb – boed yn y gwaith, gartref, yn ein cymdogaeth neu yn ein bywydau personol.

Mae'r cofnod hwn o'n dwy flynedd gyntaf yn nodi sut rydym wedi sicrhau manteision pendant i bobl Prydain mewn gwahanol agweddau ar fywyd bob dydd. Ymysg llawer o lwyddiannau eraill, mae'n dangos sut rydym wedi sicrhau hawliau newydd i gynhalwyr, pobl anabl a gweithwyr y lluoedd arfog trwy ymyrryd mewn achosion cyfreithiol; sut rydym wedi symud y drafodaeth genedlaethol yn ei blaen ar feysydd pwysig fel absenoldeb rhiant a hiliaeth yn yr heddlu; sut rydym wedi defnyddio ein pwerau gorfodi i fynd i'r afael â phrinder gwasanaethau i ddioddefwyr trais domestig; a sut rydym wedi ariannu cannoedd o sefydliadau llawr gwlad sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen hanfodol i bobl sy'n anodd eu cyrraedd.

Mae pawb yn awyddus i greu cymdeithas gyfartal lle mae hawliau dynol yn cael eu parchu. Mae pawb am gael eu trin ag urddas. Mae pawb am weld deddfau effeithiol sy'n sicrhau nad oes neb yn cael eu trin yn annheg. Rydym am gael economi effeithlon a deinamig sy'n defnyddio sgiliau pawb i'r eithaf.

Pwy ydym ni

Mae'r Comisiwn yn gorff statudol a sefydlwyd i ddiogelu, gorfodi a hyrwyddo cydraddoldeb mewn saith maes: oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Rydym hefyd yn gyfrifol am ddiogelu hawliau dynol a hyrwyddo cysylltiadau da mewn cymdeithas. Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol wedi'i ariannu gan y trethdalwyr.

Pan ddechreuodd y Comisiwn ar ei waith ym mis Hydref 2007, ein tasg oedd adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd gan y tri chomisiwn a oedd yn bodoli cynt: y Comisiwn Cyfle Cyfartal, y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a'r Comisiwn Hawliau Anabledd. Mae gennym nifer o ddulliau a dyfeisiau i sicrhau newid gwirioneddol ym mywydau pobl. Rydym yn penderfynu ar y ffordd orau o wneud hynny ar sail tystiolaeth a gwybodaeth.

Mae gennym bwerau cyfreithiol eang, yn cynnwys pwerau i gynnal ymchwiliadau ffurfiol, i wneud adolygiadau barnwrol, ac i asesu pa mor effeithiol mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb. Rydym yn gyfrifol hefyd am hyrwyddo a gorfodi'r Ddeddf Hawliau Dynol. Rydym hefyd yn ceisio dylanwadu ar bolisi a defnyddio ein grym i gyflwyno'r achos dros newid.

Yr heriau sy'n ein hwynebu

Dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt i hynny mae'r maes cydraddoldeb yn mynd i newid yn sylweddol. Yn ystod yr hydref eleni, bydd y senedd yn pleidleisio ar fesur cydraddoldeb newydd, a fydd yn dod â'r ddeddfwriaeth bresennol ar gydraddoldeb ynghyd ac yn ei datblygu. Mae'n mynd i'r afael â gwahaniaethu lluosog a'r hyn sy'n achosi anfantais: tlodi a diffyg uchelgais. Mae'r Comisiwn wedi gweithio'n galed i ddylanwadu ar gynnwys y mesur, a chredwn ei fod yn rhoi sail gyfreithiol gadarn i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb, sydd wedi'u gwreddio'n ddyfn.

Fodd bynnag, ni fydd pasio deddfwriaeth yn unig, hyd yn oed petai'n cael ei gorfodi'n briodol, yn sicrhau'r newid sylfaenol sydd ei angen ym Mhrydain, yn enwedig ar y llwybr anodd o ddirwasgiad i adferiad. Rydym angen newid agweddau yn llwyr hefyd. Byddwn yn ganolog i'r newid hwnnw, trwy weithredu fel corff rheoleiddio modern annibynnol, llym gan ddefnyddio ein grym i ddarbwyllo lle bo'n bosibl, a gorfodaeth pan fydd rhaid.

Ein nod yw gwthio cydraddoldeb o'r cyrion i'r canol. Mae'n nod uchelgeisiol ac mae llawer o waith i'w wneud eto. Fel y byddwch yn darllen yma, rydym wedi gwneud cynnydd anhygoel yn ystod ein dwy flynedd gyntaf – edrychwn ymlaen at heriau'r ddwy flynedd nesaf yn obeithiol a phenderfynol.

Crynodeb o'n gwaith dros y ddwy flynedd

50,563

o alwadau wedi'u hateb gan ein llinell gymorth yn 2008–2009

10 miliwn

wedi'i ddosbarthu trwy ein rhaglen grantiau i 285 o wahanol grwpiau sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen ledled y wlad

35,000

o bobl wedi derbyn Newyddion Cydraddoldeb, ein e-fwletin misol



2,000

o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn rhaglenni ieuenctid y Comisiwn

136,000

o fusnesau bach a chanolig wedi derbyn ein canllawiau ar reoli rhwymedigaethau cydraddoldeb yn ystod y dirywiad economaidd

150,000

Dros **150,000** o aelodau lluoedd arfog Prydain nawr yn cael eu hamddiffyn gan y Ddeddf Hawliau Dynol tra'n gwasanaethu dramor o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd gennym i achos cyfreithiol allweddol

3

ymchwiliad ffurfiol wedi'u cwblhau – i hil yn y diwydiant adeiladu, y sector prosesu cig a dofednod, a gwahaniaethu ar sail rhyw yn y sector ariannol

3,000

Wedi ymgynghori â **3,000** o unigolion a sefydliadau fel rhan o'n Hymchwiliad Hawliau Dynol arloesol

3,500

o randdeiliaid o bob cwr o'r wlad wedi cyfrannu'n rheolaidd at ein gwaith

Dros 70

o adroddiadau ymchwil, polisi ac ymchwiliad wedi'u cyhoeddi

Dros 80

o achosion gwahaniaethu wedi derbyn cymorth cyfreithiol

6 miliwn

o gynhalwyr ym Mhrydain wedi cael hawliau newydd o ganlyniad i'r gefnogaeth a roddwyd gennym i achos cyfreithiol Sharon Coleman, mam i fachgen anabl

o bobl y mis yn ymweld â'n gwefan ar gyfartaledd

Dros 400

o gamau gorfodi neu gyn-gorfodi wedi'u cymryd, gyda thros 80 y cant wedi'u datrys heb orfod mynd i'r llys

Arwain y drafodaeth

Mae ein hadroddiadau ymchwil a pholisi, prosiectau ieuenctid, ymchwiliadau a'n hachosion cyfreithiol wedi ennyn trafodaeth am faterion cydraddoldeb a hawliau dynol yn y wasg genedlaethol.

'The Government's human rights watchdog has said it will take on John Hutton, the Defence Secretary, and the Ministry of Defence in a test case to **extend human rights laws** to soldiers on the battlefield.'
The Telegraph, 9 Mawrth 2009

'Britain faces a surge in far-right extremism if white working-class families do not get help with the **economic crisis,** the race watchdog warned yesterday.'
The Daily Mirror, 29 Hydref 2008

'The equalities watchdog **threatened to sue** the Government yesterday over its attempts to hold terror suspects for up to 42 days.'
The Daily Mail, 1 Ebrill 2008

'That is the long-term purpose of the [Commission's Our Space summer] camp – **creating equality ambassadors** to reach young people before prejudices of all kinds can take root.'
The Guardian, 19 Awst 2009

‘The Equality and Human Rights Commission points to the **huge disparities** in salaries between the sexes in the City.’
Suzanne Moore, Grazia, 21 Medi 2009

‘The claim that immigrants jump the housing queue is set to be exposed as a **‘myth’** by the Equality and Human Rights Commission.’
Evening Standard, 30 Mehefin 2009

‘The case [of Sharon Coleman], backed by the Equality and Human Rights Commission… will force employers to ensure that if they offer **flexible working** it must include those with caring responsibilities.’
The Times, 18 Gorffennaf 2008

‘[With Young Brits at Art] the Commission was searching for a more truthful understanding of how young people orientate themselves amid what is too often described as an increasingly **fractured and hostile world.’**
The Times, 3 Gorffennaf 2009

‘The Equality and Human Rights Commission’s proposal for **sharing leave** much more evenly [between parents] is a **massive step in the right direction.** Instead of asking employers to put their better nature ahead of their business nous, it takes away the temptation to do otherwise.’
The Observer, 31 Mai 2009

69%

o dadau sy'n cymryd absenoldeb tadolaeth yn dweud ei fod wedi gwella eu bywyd teuluol



Pennod 1
Gwaith

Mae'r Comisiwn yn credu fod tegwch yn y gwaith yn hanfodol i les gweithwyr cyflogedig ac i ddyfodol economaidd Prydain.

Os ydym am ffynnu yn yr 21ain ganrif mae'n rhaid i ni greu diwylliant gweithio sy'n manteisio ar ddoniau yr amrywiaeth ehangaf posibl o bobl. Ni all Prydain fforddio parhau i ofyn i weithwyr cyflogedig addasu eu bywyd teuluol i fodloni gofynion marchnad gystadleuol fyd-eang gynyddol ddwys sy'n gweithredu drwy'r dydd a'r nos, saith niwrnod yr wythnos. Ni all chwaith fforddio i wrthod gweithwyr nad ydynt yn gallu cydymffurfio â threfniadau gweithio traddodiadol ac anhyblyg, na'u gwthio i'r ymylon.

Mewn llawer o ffyrdd pwysig, nid yw ein harferion gweithio wedi datblygu ar yr un raddfa â'r newidiadau cyflym sydd wedi digwydd yng nghymdeithas Prydain dros y ganrif ddiwethaf. Yn 2009, mae 46 y cant o weithlu'r DU yn fenywod, a chyfran y gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gynnydd; rhwng 2001 a 2007 lleiafrifoedd ethnig oedd yn gyfrifol am tua 90 y cant o'r twf yn y boblogaeth oedran gweithio yn Lloegr. Mae dros chwarter y gweithlu yn bobl dros 50 oed.

Mae'r Comisiwn Menywod a Gwaith wedi amcangyfrif fod Prydain yn colli £15-23 biliwn y flwyddyn o beidio â manteisio digon ar sgiliau menywod. O gyfuno hynny gyda'r colledion a geir yn sgil cynrychiolaeth annigonol gan grwpiau eraill, mae effaith anghydraddoldeb ar yr economi i'w gweld yn amlwg iawn.

Mae'r her sydd yn ein hwynebu yn fwy difrifol gan fod effeithiau cyfunol disgwyliad oes uwch a chyfradd genedigaethau is yn golygu y bydd yna lai o weithwyr am bob unigolyn o oedran pensiwn mewn blynyddoedd i ddod. Pan gyflwynwyd pensiynau ar ddechrau'r 1900au roedd yna 22 o bobl o oedran gweithio ym Mhrydain am bob unigolyn oedd wedi ymddeol. Yn 2024, fe fydd y ffigur hwn yn llai na thri.

Gall y ffaith fod pobl yn treulio llai o'u bywydau yn y gwaith gael amryw o ganlyniadau niweidiol posibl: mwy o bwysau ar bensiynau, mwy o bobl hŷn yn gorfod byw mewn tlodi, a chostau gofal iechyd a chymdeithasol uwch.

Trwy wneud gwaith ymchwil, cynnig atebion polisi, gwneud defnydd effeithiol o'n pwerau cyfreithiol a lobïo seneddol mae'r Comisiwn wedi braenaru'r tir i gyflogwyr a llunwyr polisi drawsnewid bywyd gwaith ym Mhrydain. Dim ond amodau cyfartal all sicrhau digon o weithwyr talentog i gynnal economi fywiog ac arloesol.

Credwn fod angen meddwl yn radical am sut i chwalu'r rhwystrau sy'n cadw rhannau cyfan o'r boblogaeth allan o waith, neu mewn swyddi sydd llawer is na'u lefel sgiliau. Datgelodd ein hadroddiad **Rhyw a Grym 2008** nad yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar lefelau uchaf cwmnïau, yn y Senedd, ac yn y byd barnwrol o hyd – er gwaetha'r ffaith fod merched yn cyflawni'n well na bechgyn mewn llawer o feysydd addysg. Canfu ein hymchwil y bydd hi'n cymryd 27 mlynedd arall i sicrhau cydraddoldeb ymysg uwch reolwyr y gwasanaeth sifil, 55 mlynedd arall i sicrhau nifer cyfartal o fenywod ar lefel uwch yn y byd barnwrol, a thua 200 mlynedd i sicrhau nifer cyfartal o fenywod yn y Senedd os yw'r gyfradd gynnydd yn parhau fel ag y mae ar hyn o bryd.

Roedd ein hadroddiad **Pwy sy'n Rhedeg Cymru?** yn canolbwyntio ar gynrychiolaeth annigonol menywod ym mywyd gwleidyddol Cymru. Cynhyrchwyd ffilm yn seiliedig ar yr adroddiad ac fe'i dangoswyd yng nghynadleddau'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

Gweithio'n well

Mae angen i ni ddeall pam fod ein heconomi'n cael ei hamddifadu o dalentau menywod a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol. Nod prosiect **Gweithio'n Well** y Comisiwn, a lansiwyd yn haf 2008, yw canfod a hyrwyddo dulliau arloesol o weithio sy'n helpu i ateb heriau'r 21ain ganrif. Bydd yn archwilio sut y gallwn ni baru dyheadau gweithwyr cyflogedig gydag anghenion cyflogwyr. Gan adeiladu ar brosiect 'Trawsnewid Gwaith' yr hen Gomisiwn Cyfle Cyfartal, rydym wedi ymestyn ffiniau Gweithio'n Well i gynnwys anghenion rhieni, cynhalwyr, pobl anabl, pobl ifanc a gweithwyr hŷn.

55% o dadau wedi cymryd absenoldeb tadolaeth

Fel rhan o gam gyntaf Gweithio'n Well, a oedd yn canolbwyntio ar deuluoedd, gwelwyd bod rhieni heddiw am rannu gwaith a chyfrifoldebau teuluol yn fwy cyfartal. Mae llawer o dadau yn dymuno cael mwy o absenoldeb tadolaeth ac nid yw'r galw hwn yn cael ei fodloni ar hyn o bryd. Ond er gwaetha'r realiti cymdeithasol hwn, nid yw'r hawliau absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a rhiant cyfredol – gydag absenoldeb mamolaeth hir â thâl isel, absenoldeb tadolaeth byr â thâl isel ac absenoldeb rhiant di-dâl anhyblyg – yn galluogi rhieni i gael yr hyn maent yn ei ddymuno.

Rydym wedi cynnig y dylid cyflwyno polisi newydd rhagorol o absenoldeb rhiant niwtral o ran y rhywiau yn lle'r model cyfredol erbyn 2020. Byddai hyn yn galluogi teuluoedd i allu gwneud dewisiadau gwirioneddol yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd eu plentyn, ac i fanteisio ar absenoldeb rhiant â thâl nes bod y plentyn yn bump oed. Rydym hefyd yn argymell ymestyn yr hawl i ofyn am drefniadau gweithio hyblyg i bob gweithiwr cyflogedig gydol eu bywyd gwaith. Byddai'r mesurau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i allu menywod i gynnal gyrfa ar ôl cael plant – ac i allu dynion i gymryd rhan yn llawn ym mywyd y teulu.

Yn ail gam Gweithio'n Well, a fydd yn cael ei gwblhau'n ddiweddarach eleni, rydym yn edrych ar weithwyr anabl, cynhalwyr a gweithwyr hŷn. Mae ein canfyddiadau cychwynnol wedi dangos fod dau draean o weithwyr hŷn yn honni y byddent yn manteisio ar drefniadau gweithio hyblyg pe byddent ar gael – gan fod gan lawer ohonynt gyfrifoldebau gofalu y tu allan i'r gweithle. Mae'r ymchwil hefyd yn herio rhai o'r tybiaethau cyffredin am ddymuniadau pobl hŷn. Dim ond pump y cant o bobl dros 50 oed sydd am gael gwared ar gyfrifoldebau wrth iddynt heneiddio. Cyflogwyr yn gwrthod rhoi dyrchafiad neu lai o gyfleoedd yw'r rheswm mwyaf cyffredin pam fod pobl hŷn yn gweithio ar lefel is nag y dymunant. Ni allwn fforddio parhau â'r sefyllfa hon o ystyried pa mor bwysig yn economaidd yw cadw pobl hŷn mewn gwaith.

Hawliau newydd yn y gweithle

Mae ein timau cyfreithiol a seneddol wedi bod yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithleoedd tecach hefyd. Rydym wedi ennill hawliau newydd i weithwyr cyflogedig a chyflogwyr trwy wneud defnydd effeithiol o'n pwerau cyfreithiol a dylanwadu ar ddeddfwriaeth.

Un achos a sefydlodd hawliau newydd i gannoedd ar filoedd o weithwyr y lluoedd arfog oedd yr un a gyflwynwyd gan fam **Jason Smith,** milwr a fu farw'n Irac, yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y Llys Apêl. Bu farw Jason o drawiad gwres ym mis Awst 2003 ar ôl dweud dro ar ôl tro wrth staff meddygol y fyddin ei fod yn teimlo'n sâl iawn yn y gwres tanbaid o dros 50°C. Yn dilyn ymyriad y Comisiwn, dyfarnodd y Llys Apêl fod y Ddeddf Hawliau Dynol yn amddiffyn gweithwyr y lluoedd arfog sy'n gwasanaethu dramor. Maent yn cael eu hamddiffyn waeth ydynt mewn canolfan y lluoedd arfog ai peidio. Roedd yr achos yn un arwyddocaol gan mai dyma'r tro cyntaf i'r llysoedd ystyried sut mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol i luoedd Prydain sy'n gwasanaethu dramor.

Llwyddom i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu diogelu'n well rhag bwlio homoffobig yn y gwaith trwy ddarparu cymorth cyfreithiol i Stephen English yn ei achos yn erbyn Sanderson Blinds Cyf. Mae Mr English yn ddyn heterorywiol priod a gyflwynodd hawliad o aflonyddu yn erbyn ei gyflogwyr ar ôl iddo ddioddef blynyddoedd o wawdio homoffobig gan gydweithwyr. Penderfynodd y Llys Apêl y dylai dioddefwyr camdriniaeth sydd wedi'i hysgogi gan homoffobia gael eu hamddiffyn – hyd yn oed pan fo'r rhai sy'n gyfrifol yn gwybod nad yw'r dioddefwr yn hoyw.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar y mesur cydraddoldeb sy'n mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd. Roeddem am weld cymal ar weithredu cadarnhaol yn cael ei gynnwys yn y mesur, sy'n golygu y gall cyflogwr ystyried anfantais a chynrychiolaeth annigonol fel 'ffactor benderfynu' am y tro cyntaf wrth ddewis rhwng dau ymgeisydd sydd yr un mor gymwysedig â'i gilydd am swydd. Roeddem hefyd am weld gwahardd 'cymalau cau ceg' y sector preifat sy'n atal cydweithwyr rhag trafod manylion eu cyflog, a buom yn lobïo i ymestyn y ddyletswydd cydraddoldeb i gwmnïau preifat sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r sector cyhoeddus.

80% Mae menywod ym mhrif gwmnïau ariannol y DU yn derbyn tua **80 y cant** yn llai o dâl ar sail perfformiad na'u cydweithwyr gwrywaidd

Helpu busnesau a chyrff cyhoeddus i gyflawni eu rhwymedigaethau

Rydym yn credu mewn gweithio gyda busnesau i'w helpu i ymateb i'r heriau maent yn eu hwynebu a chydymffurfio â'r gyfraith. Rydym wedi cydnabod anghenion penodol busnesau bach a chanolig – yn arbennig y rhai nad oes ganddynt adran Adnoddau Dynol eu hunain. Roedd y cyntaf o'r canllawiau arbennig hyn i BBaChau yn rhoi cyngor ar rwymedigaethau cydraddoldeb wrth ymdopi yn y dirywiad economaidd a pharatoi ar gyfer adferiad yr economi. Mae'n cynnwys canllawiau ar rwymedigaethau cydraddoldeb wrth ddileu swyddi gweithwyr, gan gynnwys syniadau am weithio hyblyg a ffyrdd eraill o osgoi colli swyddi.

Cyhoeddwyd **canllawiau ar ddyletswyddau cydraddoldeb** i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yn y sector cyhoeddus hefyd, yn ogystal â phecyn cymorth i'w ddefnyddio gan unigolion a sefydliadau sy'n amau nad yw sefydliad o'r sector cyhoeddus yn cydymffurfio â'r dyletswyddau.

Rydym wedi ymchwilio i sefydliadau a sectorau yr ydym yn amau eu bod yn torri deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol.

Ymchwiliadau ac asesiadau ffurfiol

Roedd yr **Ymchwiliad i Wahaniaethu ar sail Hil yn y Diwydiant Adeiladu** yn edrych ar ddiffyg cynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn ledled y diwydiant. Canfu'r ymchwiliad fod arferion recriwtio gwael yn cyfrannu at y niferoedd isel. Dim ond 3.3 y cant o weithlu'r diwydiant adeiladu sy'n bobl o leiafrifoedd ethnig, er eu bod yn cyfrif am 7.9 y cant o'r gweithlu cenedlaethol. Mae'r Comisiwn wedi galw ar y diwydiant adeiladu i fuddsoddi mewn hyfforddi a recriwtio'r ymgeiswyr gorau o'r gronfa dalent ehangaf bosibl.

Yng ngham nesaf yr Ymchwiliad bydd y Comisiwn yn gweithio gyda chyrff y diwydiant, y llywodraeth, undebau a darparwyr addysg i sicrhau newid. Byddwn yn adrodd ar hyn erbyn mis Chwefror 2010.

Canfu yr **Ymchwiliad i'r Sector Cyllid** bod menywod mewn rhai o brif gwmnïau ariannol y DU yn derbyn tua 80 y cant yn llai o dâl ar sail perfformiad na'u cydweithwyr gwrywaidd. Y gwahaniaeth hwn yw un o'r prif resymau am y bwlch cyflog anferth rhwng y rhywiau yn y sector ariannol.

Dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o ddata am fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn y sector gael ei gasglu, gyda'r Comisiwn yn defnyddio'i bwerau statudol i'w gwneud hi'n ofynnol i gwmnïau ddarparu tystiolaeth o'u harferion gwaith a'u polisïau yn cynnwys polisi cyflog, gwerthusiadau swyddi ac archwiliadau.

Mae'r Comisiwn wedi dechrau trydydd cam ei Ymchwiliad. Bydd yn cydweithio â chwmnïau ariannol, gweithwyr cyflogedig, cymdeithasau'r diwydiant, arweinwyr, rheoleiddwyr ac undebau llafur i ddatblygu atebion wedi'u targedu'n fwy penodol i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau rhwng y rhywiau a nodwyd yn ei adroddiad.

Rydym hefyd wedi lansio Ymchwiliad i'r **sector prosesu cig a dofednod,** sy'n ceisio canfod gwahaniaethau mewn cyflog ac amodau rhwng gweithwyr asiantaeth – llawer ohonynt yn fudwyr – a gweithwyr cyflogedig sy'n cael eu cyflogi'n barhaol neu'n uniongyrchol. Disgwylir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr 2010.

Fel rhan o'n gwaith ar y dyletswyddau cydraddoldeb buom yn asesu sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a'i hasiantaeth, y Ganolfan Byd Gwaith, yn cydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb. Canfu'r adolygiad blwyddyn o hyd hwn rai enghreifftiau o arferion da ond bod angen i DWP a'r Ganolfan Byd Gwaith wneud mwy i hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawni'r dyletswyddau. Mewn ymateb i'r asesiad, mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi nodi ei bod yn bwriadu rhoi sylw i'r holl faterion a godwyd gan y Comisiwn yn eu tro.

Rhai o'r meysydd a oedd yn destun pryder oedd ffocws cyfyngedig asesiadau effaith ar gydraddoldeb, diffyg tryloywder mewn ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid, ceisio sicrhau cymaint â phosibl o asesiadau yn hytrach nag ansawdd canlyniadau, a chamsyniadau bod triniaeth gyfartal yn arwain yn awtomatig at ganlyniadau cyfartal.

Yng Nghymru, mae ein rhwydwaith Cyfnewidfa Cydraddoldeb o gyflogwyr sector cyhoeddus yn tyfu ac wedi cynnal dwy gynhadledd fawr i rannu arferion effeithiol ar gyfer symud cydraddoldeb i fyny'r agenda.



200 mlynedd

Bydd hi'n cymryd
200 mlynedd ar y
gyfradd gynnydd
bresennol i fenywod
gael eu cynrychioli'n
gyfartal yn y Senedd

Gwaith yn y dyfodol

Asiantaeth ddigidol fechan yw Clock sy'n cyflogi 32 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn ddynion. Mae'r cwmni, sydd wedi ennill gwobrau, yn cynllunio a chreu mewnrwydi ac allrwydi, yn datblygu brandiau ac yn creu ymgyrchoedd marchnata ar-lein i gwmnïau yn cynnwys y BBC, Channel 4, J D Wetherspoon, a News Corporation.

Mae'r cwmni sydd wedi'i leoli yn Swydd Hertford yn darparu trefniadau gweithio hyblyg a buddion cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith eraill i'w weithwyr, fel y gallant gynllunio gwaith o amgylch eu bywydau, diddordebau, anghenion a dymuniadau. Cafodd y cwmni sylw yn adroddiad Gweithio'n Well y Comisiwn, a oedd yn hyrwyddo mwy o hyblygrwydd i rieni yn y gwaith.

Mae Clock yn gwybod fod rhai cwmnïau sy'n cystadlu ag ef yn cynnig mwy o gyflog. Ond trwy gynnig gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i bobl, mae'n honni y gall ddenu a chadw gweithwyr cyflogedig medrus iawn.

Dim ond pum gweithiwr sydd wedi gadael y cwmni mewn 11 mlynedd, felly mae Clock wedi arbed arian ar recriwtio ac wedi llwyddo i ddal gafael ar wybodaeth werthfawr. Mantais arall arferion gweithio hyblyg yw'r gyfradd absenoldeb salwch isel.

Mae unigolion yn gallu rheoli sut maent yn gweithio. Roedd Rob Arnold, dylunydd gwefannau, yn gallu gweithio o bell tra'n astudio am radd prifysgol. Mae'r dull hyblyg yn apelio'n fawr i'r rhai sy'n chwilio am swyddi, yn ôl Rob. 'Roedd gweithio o bell yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol i mi, ro'n i'n cael fy nhrin fel person ac fe gefais gyfrifoldeb a roddodd gyfle i mi ddangos fy noniau.' Datblygodd o fewn y cwmni ac mae bellach yn gweithio fel rheolwr stiwdio.

'Os ydych chi'n ymddiried mewn pobl a rhoi lle, rhyddid ac arweiniad iddyn nhw, fe fyddan nhw'n dangos ymroddiad a mentergarwch yn eu gwaith,' meddai Syd Nadim, prif weithredwr.

Syd Nadim, prif weithredwr

‘Os ydych chi’n ymddiried mewn pobl a rhoi lle, rhyddid ac arweiniad iddyn nhw, fe fyddan nhw’n dangos ymroddiad a mentergarwch yn eu gwaith.’

5.2 miliwn

o bobl wedi darparu gofal i bartneriaid, perthnasau neu ffrindiau heb dâl yn 2001

Pennod 2
Y cartref

Mae darparu gofal a chymorth yn y cartref – boed ar gyfer neiniau a theidiau, rhieni, partneriaid, cydweithwyr, ein cymdogion, plant neu ni ein hunain – yn fater sy'n siŵr o effeithio ar bawb ar ryw adeg, ar nifer o adegau mewn bywyd o bosibl.

Mae ansawdd y gofal sydd ar gael i ni yn cael effaith uniongyrchol ar y dewisiadau y gallwn eu gwneud a'r cyfleoedd a gawn i fyw y math o fywyd a ddymunwn. Gall ddylanwadu ar ein hiechyd a lles ac ansawdd ein perthynas â'n teulu.

Bydd darpariaeth gofal yn cael effaith gynyddol ar economi Prydain hefyd, o ran y gwariant preifat a chyhoeddus sydd ei angen i gynnal gofal a chymorth, ac ar allu unigolion sy'n derbyn neu'n darparu gofal i weithio am dâl. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd gydag anghenion gofal a chymorth yn cynyddu 87 y cant rhwng 2001 a 2051 wrth i'n cymdeithas heneiddio. Roedd cyfrifiad cenedlaethol Cymru a Lloegr yn 2001 yn amcangyfrif fod 5.2 miliwn o bartneriaid, perthnasau neu ffrindiau yn darparu cymorth i bobl heb dâl, gyda 1.7 miliwn ohonynt yn gofalu am 20 awr neu fwy yr wythnos. Canfu cyfrifiad 2001 yn yr Alban fod tua 480,000 o bobl yn darparu rhyw ffurf ar ofal di-dâl. Erbyn 2041, rhagwelir y bydd bron i 1.3 miliwn o bobl hŷn anabl angen gofal anffurfiol – cynnydd o tua 90 y cant.

Mae'r Comisiwn yn credu y bydd y ffordd rydym ni'n ymdrin â gofal a chymorth yn ffactor gynyddol bwysig o ran sicrhau bod pobl yn gallu manteision ar eu hawliau dynol mwyaf sylfaenol. I ryw raddau hefyd, bydd yn pennu patrymau anghydraddoldeb a lefelau cynhwysiant cymdeithasol y dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cyflwyno cyfres o gynigion polisi manwl ar wella'r system ofal. Rydym wedi ennill hawliau cyfreithiol newydd i gynhalwyr Prydain, ac wedi ymgyrchu am wasanaethau hanfodol i sicrhau bod ein bywydau cartref yn bleserus a diogel.

Llywio dyfodol gofal

Roedd ein hadroddiad ar ddyfodol gofal cymdeithasol yn Lloegr, **'From Safety Net to Springboard',** yn dadlau ein bod ni wedi cyrraedd pwynt lle mae gennym ddau opsiwn. Gallwn ddewis sianelu potensial gofal a chymorth drwy ddwysáu a chyflymu newidiadau i'r system. Byddai hyn yn golygu dyfodol lle mae gofal a chymorth yn gweithredu fel sbringfwrdd, gan alluogi pob un ohonom i gyflawni ein potensial llawn ac i wneud cyfraniad gartref, yn y gwaith ac yn ein cymunedau. Fel hyn, gall gofal a chymorth gyfrannu'n llawn at helpu'r wlad i ddatblygu'r economi ac i baratoi'n llawn ar gyfer y newid demograffig a ddaw yn y degawdau nesaf.

Y dewis arall yw methu â gwireddu potensial gofal a chymorth, a chynyddu'r posibilrwydd o orfod talu pris cymdeithasol ac economaidd uchel: iechyd pobl yn gwaethygu, anweithgarwch economaidd, mwy o anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, perthynas wael gyda'r teulu a thensiwn rhwng cenedlaethau.

Fe wnaethom nodi bod angen creu rôl gynaliadwy ar gyfer gofal a chymorth anffurfiol, gan osgoi'r hyn a alwn yn 'wasgfa ofal'. Mae'r term hwn yn disgrifio canlyniadau dibynnu'n ormodol ar ofal anffurfiol neu ofal a ariennir yn breifat sy'n gallu gosod baich corfforol ac ariannol annioddefol ar deuluoedd sy'n gorfod cydbwyso gwaith gyda magu plant a chynorthwyo rhieni a pherthnasau hŷn.

Buom yn galw am system wedi'i seilio ar egwyddorion hawliau dynol a chydraddoldeb, i'w gweithredu'n gyson ledled y wlad. Dylai system o'r fath gael ei seilio ar ddull sy'n canolbwyntio ar ryddid pobl i beidio â dioddef niwed, ac ar sut gellir sicrhau bod pobl yn cael rhyddid i lwyddo. Gelwir hyn yn ddull 'galluoedd', ac mae ymrwymiad i hyrwyddo annibyniaeth yr unigolyn yn ganolog iddo.

Hawliau newydd i gynhalwyr

Llwyddwyd i ennill hawliau newydd pwysig i'r 6 miliwn o gynhalwyr ym Mhrydain trwy ddarparu cymorth cyfreithiol yn achos **Coleman v Attridge Law.** Roedd yr achos yn ymwneud â Sharon Coleman, ysgrifenyddes gyda chwmni cyfreithiol. Roedd ei mab, Oliver, â chyflwr iechyd difrifol ers ei eni. Roedd Sharon yn honni nad oedd wedi cael manteisio ar y trefniadau gweithio hyblyg oedd ar gael i gydweithwyr eraill nad oedd ganddynt blant anabl.

Roedd penderfyniad Llys Cyfiawnder Ewrop yn datgan fod gwahaniaethu yn erbyn unigolyn ar sail cysylltiad â pherson anabl yn anghyfreithlon.

71% o gynhalwyr yn dweud eu bod dan straen

Mae'r achos hwn yn golygu na ellir gwahaniaethu yn y gweithle yn erbyn unrhyw un sy'n gofalu am blentyn neu berthynas hŷn anabl.

Roedd achos **R(JA) v London Borough of Enfield** yn ymwneud â phedwar o bobl â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a oedd yn wynebu gorfod symud o'u cartref preswyl. Cynigiwyd ymyrryd yn yr achos, lle gofynnodd preswylwyr y cartref am ganiatâd i gynnal adolygiad barnwrol o'r awdurdod lleol ar y sail ei fod wedi torri deddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd, gofal yn y gymuned a hawliau dynol. Yn y pendraw, rhoddodd yr awdurdod lleol ganiatâd i'r preswylwyr aros yn y cartref.

Diogelwch personol a diogelwch eiddo yn y cartref

Nid yw bywyd cartref yn ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn unig. Mae yna nifer o faterion eraill perthnasol hefyd: sicrhau bod ein cartrefi'n ddiogel yn ffisegol; perthynas gymhleth pobl mewn teuluoedd yn aml; a sut rydym yn dewis treulio ein hamser hamdden. Mae'r Comisiwn wedi cynnal nifer o brosiectau ac wedi cymryd rhan mewn achosion cyfreithiol i geisio sicrhau diogelwch personol a diogelwch eiddo pawb yn eu cartrefi. Roedd un achos cyfreithiol arwyddocaol, **R (McCarthy and others) v Basildon District Council,** yn ymwneud â phenderfyniad y Cyngor i gynnal ymgyrch fawr i symud Teithwyr o safleoedd anawdurdodedig. Cafodd hyn ei herio ar sawl sail, yn cynnwys gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol a thorri'r ddyletswydd cydraddoldeb hiliol. Ymyrrodd y Comisiwn i gynnig arweiniad ar sut ddylid gweithredu'r gyfraith mewn perthynas â hil ac anabledd mewn achosion o'r fath. Cafodd apêl y Cyngor yn erbyn penderfyniad yr Uchel Lys ei fod wedi gweithredu'n anghyfreithlon ei chadarnhau gan y Llys Apêl.

Mae'r Comisiwn, fodd bynnag, wedi parhau i weithio i ddwyn y ddau barti ynghyd er mwyn cael trafodaeth adeiladol ar y mater.

Ymgyrch unigryw gan y Comisiwn a chlymblaid Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod yw **Mapio'r Bylchau** sy'n mapio gwasanaethau i fenywod sydd wedi dioddef trais. Mae dros dair miliwn o fenywod yn profi trais bob blwyddyn ledled y DU ac mae gwasanaethau cymorth arbenigol yn hanfodol i'r menywod hyn er mwyn sicrhau diogelwch, cyfiawnder a'r gallu i symud ymlaen â'u bywydau.

Datgelodd yr ymarfer mapio nad yw un o bob pedwar awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol o gwbl.

Glasgow sydd â'r ddarpariaeth orau o wasanaethau cymorth arbenigol i fenywod ym Mhrydain ac mae'r Llywodraeth wedi ehangu darpariaeth yn yr Alban yn gyffredinol ers dros bum mlynedd trwy Gronfa Trais yn Erbyn Menywod genedlaethol. Yng Nghymru, mae gan bob awdurdod lleol o leiaf un gwasanaeth cam-drin domestig. Mae angen ymestyn y gwaith hwn i gynnwys pob math o drais yn erbyn menywod. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn nwyrain a de-ddwyrain Lloegr yn wael iawn. Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddodd y Comisiwn y byddai'n bygwth camau cyfreithiol yn erbyn dros 100 o awdurdodau lleol am eu bod yn methu â darparu gwasanaethau arbenigol i fenywod sydd wedi profi trais.

Mae awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i fod i hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn ôl y gyfraith, ac mae'r ddyletswydd honno'n gofyn iddynt ystyried anghenion gwahanol dynion a menywod. Gan fod trais yn erbyn menywod yn gyfrifol am gymaint o'r anghydraddoldeb sy'n wynebu menywod, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau cymorth digonol i fenywod dan amgylchiadau o'r fath. O ganlyniad, rydym wedi penderfynu cymryd camau gweithredu yn erbyn awdurdodau lleol sy'n methu â chyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y ddyletswydd cydraddoldeb rhywiol.

Hawliau yn ystod amser hamdden

Mae gwyliau yn rhan bwysig o fywyd cartref a theuluol pobl – ond gallant fod yn adegau anodd, llawn straen i'r rhai sydd angen gofal a chymorth. Nod ein **hymgyrch teithio awyr** oedd addysgu unigolion a chwmnïau hedfan am eu hawliau a chyfrifoldebau o dan gyfraith Ewropeaidd newydd, sy'n golygu bod modd i chi gael cymorth wrth hedfan i ac o Ewrop os ydych chi'n anabl neu'n cael trafferth symud.

Nid oes rhaid i chi fod ag anabledd parhaol neu gorfforol i fanteisio ar y gwasanaeth hwn. Gall rhywun sy'n cael trafferth symud, er enghraifft, oherwydd anabledd, oedran neu anaf dros dro, gael cymorth wrth hedfan.

Aethom ati i gynhyrchu 'Eich Hawl i Hedfan', canllaw cam wrth gam ar gyfer y rhai sy'n defnyddio cwmnïau hedfan. Rydym hefyd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion yn erbyn cwmnïau hedfan y DU a meysydd awyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, cynghori teithwyr ar eu hawliau a pha gamau gweithredu pellach y gallent eu cymryd. Rydym hefyd yn trafod gyda chydweithwyr yn yr Adran Drafnidiaeth a'r CAA (corff rheoleiddio cwmnïau hedfan) a gwledydd eraill yr Undeb Ewropeaidd i wella gwasanaethau i deithwyr anabl a theithwyr sydd ag anawsterau symud.

1.75 miliwn

o bobl o oedran gweithio a hŷn wedi defnyddio gwasanaethau gofal wasanaethau gofal yn 2007–8

Hawliau dynol yn y cartref ac mewn gofal

Mae Paul Mesner a'i wraig Dorothy yn dangos lluniau eu gwyliau: Paul yn gwenu mewn car cebl ym Madeira; yr olygfa o'r môr o'u llety ym Majorca. Mae gan y ddau reswm arbennig i deimlo'n falch a chyffrous am eu teithiau; mae Paul yn detraplegig, ac nid yw'n gallu symud llawer o'i wddf i lawr. Mae gadael y tŷ yn cymryd llawer o egni a chynllunio – ac mae gwyliau fel 'ymgyrch filwrol', meddai gyda gwên flinedig.

Cyn cael damwain ffordd a fu bron â thorri madruddyn y cefn ym mis Gorffennaf 2005, un o brif ddiddordebau Paul oedd teithio; byddai ef a Dorothy'n mynd dramor deirgwaith neu bedair gwaith y flwyddyn. Maent yn benderfynol eu bod am barhau i deithio – ac mae eu penderfyniad wedi annog eu bwrdd iechyd lleol i fabwysiadu'r dull seiliedig ar hawliau a hyrwyddwyd gan y Comisiwn yn ei Ymchwiliad Hawliau Dynol.

Gan dderbyn fod gan Paul a Dorothy hawl i gael bywyd teuluol, aeth Bwrdd Iechyd Torfaen, sy'n darparu gofal i Paul, ati i lunio gweithdrefn asesu risg, a oedd yn dangos fod y Bwrdd yn gallu darparu gofal o safon dderbyniol yn lleoliad y gwyliau.

Diolch i'r weithdrefn newydd, mae Paul a Dorothy wedi bod ar wyliau deirgwaith ers y ddamwain. 'Ar ôl i ni gyrraedd rwy'n gweld y gwahaniaeth mae bod mewn rhywle gwahanol yn ei wneud,' meddai Dorothy. 'Mae Paul yn wên o glust i glust.'



Paul a Dorothy Mesner

‘Ar ôl i ni gyrraedd rwy’n gweld y gwahaniaeth: mae Paul yn wên o glust i glust.’



Mae 9 o bob 10

person sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi'u geni yn y DU

Pennod 3
Y gymdogaeth

Mae perthynas dda rhwng cymunedau ac o fewn cymunedau yn sylfaenol i'r math o gymdeithas y mae pawb am fod yn rhan ohoni; cymdeithas sy'n seiliedig ar degwch a pharch, lle mae pobl yn hyderus ym mhob agwedd ar eu hamrywiaeth.

Mae helpu i hybu cysylltiadau da yn un o nodau craidd y Comisiwn, ynghyd â chael gwared ar wahaniaethu, lleihau anghydraddoldeb a diogelu hawliau dynol.

Pan fyddwn yn siarad am gysylltiadau da, rydyn ni'n golygu perthynas gadarnhaol o fewn y grwpiau cymdeithasol a'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd. Mewn gair, mae gan bob unigolyn yr hawl i gael ei barchu a'i drin yn deg gan aelodau eraill o'i gred, hil neu grŵp cymdeithasol. Yn yr ystyr ehangach, mae'n bwysig bod cymunedau gwahanol yn parchu ac yn trin ei gilydd yn deg.

Mae'r Comisiwn wedi gwneud ymchwil ac argymhellion polisi ar y ffordd orau o gryfhau cysylltiadau da a lleihau tensiwn cymdeithasol mewn meysydd allweddol megis tai a phlismona. Mae gennym swyddogaeth bwysig o ran hybu a gweithredu'r dyletswyddau cydraddoldeb, cyfreithiau sy'n rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdod cyhoeddus i hybu cydraddoldeb rhywiol, cydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb i bobl anabl. Bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu hymestyn i gwmpasu'r holl feysydd cydraddoldeb yn 2011, a byddwn yn cynghori awdurdodau cyhoeddus sut i feithrin cysylltiadau da rhwng pob grŵp yn y gymdeithas.

Lleihau tensiwn rhwng cymunedau

Roedd adroddiad y Comisiwn, **'Police and Racism: what has been achieved 10 years after the Stephen Lawrence Inquiry report?'** yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed gan yr heddlu ym maes cydraddoldeb hiliol dros y degawd diwethaf. Canfu'r adroddiad fod cynnydd mawr wedi'i wneud mewn meysydd megis recriwtio staff o leiafrifoedd ethnig ac adrodd ar droseddau hiliol a'r ymchwiliadau dilynol.

Serch hynny, gwelodd hefyd fod sawl maes sy'n peri pryder megis y nifer anghyfartal o bobl dduon ac Asiaidd sy'n cael eu stopio a'u chwilio yn y rhan fwyaf o ranbarthau'r heddlu, y gyfradd uchel o ddynion du sydd wedi'i chofnodi ar y gronfa ddata DNA, a'r ffaith fod dwywaith gymaint o blismyn newydd o leiafrifoedd ethnig yn gadael y gwasanaeth o fewn y chwe mis cyntaf o gymharu â'u cymheiriaid gwyn.

Bu ein hastudiaeth ar dai cymdeithasol, **'Social Housing Allocation and Immigrant Communities',** yn gymorth i chwalu rhai o'r mythau ynglŷn â dosbarthu tai cymdeithasol. Canfu fod naw person o bob deg sy'n byw mewn tai cymdeithasol ym Mhrydain wedi'u geni yn y DU, a bod llai na dau y cant o holl breswylwyr tai cymdeithasol yn bobl sydd wedi symud i Brydain yn y pum mlynedd diwethaf.

Yn ôl yr ymchwil annibynnol, mae polisïau tai cymdeithasol yn targedu'r bobl sydd â'r anghenion mwyaf, gan gynnwys pobl ddigartref, pobl hŷn a theuluoedd â phlant. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r dybiaeth bod ymfudwyr newydd yn cael mwy o flaenoriaeth na phreswylwyr a anwyd yn y DU. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio'r system, gan gynnwys neidio'r ciw neu ddarparu gwybodaeth ffug.

Serch hynny, er gwaethaf y dystiolaeth, gwelwyd bod gan y cyhoedd farn wahanol ynglŷn â phwy sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer tai cymdeithasol. Yn ystod trafodaethau grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect, gwelwyd bod yna bryder cyffredinol eang fod y broses ddyrannu'n rhoi teuluoedd Prydeinig gwyn o dan anfantais a bod ymfudwyr yn camddefnyddio'r system. Mae'n debyg bod y myth hwn yn cyfrannu at densiwn a thrais mewn llawer o ardaloedd.

Nododd yr adroddiad nifer o ffactorau a allai fod yn cyfrannu at y farn hon gan argymell y dylai llunwyr polisïau lleol fynd i'r afael â phryderon y cyhoedd am effeithiau ymfudo ar dai. Roedd hefyd yn awgrymu bod angen gwneud mwy i wella dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n gwneud pobl yn gymwys i hawlio tai cymdeithasol, gan y gall diffyg tryloywder yn y broses hyrwyddo'r gred bod y system ei hun yn annheg.

Maes pryder arall sy'n peri tensiwn cymdeithasol a nodwyd oedd **Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr,** ac rydym wedi cynnal sawl prosiect ymchwil a pholisi yn ogystal ag ymyrryd yn yr achos cyfreithiol yn ymwneud â'r bwriad i symud cymuned o Deithwyr yn Basildon, a drafodwyd ym Mhennod Dau.

7 Mae pobl dduon **saith gwaith** yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu na phobl wyn

Roedd yr adroddiad 'Gypsies and Travellers: simple solutions for living together' yn adroddiad ar gyfer awdurdodau lleol yn tanlinellu eu cyfrifoldeb i ddarparu llety digonol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac yn arddangos enghreifftiau o arfer gorau o bob cwr o'r wlad.

Mae safleoedd Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig yn hanfodol er mwyn osgoi'r tensiwn cymdeithasol a achosir gan safleoedd anawdurdodedig, nad ydynt yn darparu angenrheidiau sylfaenol megis cyfleusterau iechydaeth a chasglu sbwriel. Mae'n ofynnol gan y llywodraeth i awdurdodau lleol wneud darpariaeth addas ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr erbyn 2011. Serch hynny, mae ein hymchwil yn Lloegr yn dangos – er gwaethaf rhywfaint o gynnydd – fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ymhell o gyrraedd eu targed. Bydd angen iddynt ddyblu eu hymdrechion er mwyn sicrhau llety dros dro digonol erbyn 2011 a dyblu hynny eto er mwyn darparu digon o safleoedd parhaol.

Rydyn ni wedi galw ar awdurdodau lleol am arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymiad i ganfod atebion hirdymor i'r diffyg llety i Sipsiwn a Theithwyr. Byddwn ni'n parhau i gydweithio ag awdurdodau lleol a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau bod cynnydd i sicrhau sefyllfa deg.

Yng Nghymru, rydym wedi cynnal arolwg i edrych ar agweddau tuag at wahaniaethu, cydraddoldeb, hawliau dynol a sut rydym yn cydfyw. Yn gyffredinol roedd y canlyniadau'n dangos cymdeithas fodlon, ond roedd carfannau bach o ragfarn cynhenid, a'r mwyafrif ynglŷn â chyflyrau iechyd meddwl, pobl drawsrywiol a Sipsiwn a Theithwyr.

Yn yr Alban, comisiynwyd yr adroddiad **'Room for Manoeuvre'** gennym, a oedd yn edrych ar sut y gellid meithrin cysylltiadau da mewn cymunedau lle mae angen mudo mewnol. Ystyriodd yr adroddiad pa gynlluniau oedd eu hangen ar gyfer y twf yn y boblogaeth. Fe'i lansiwyd gyda chynhadledd ymfudo, gydag arbenigwyr yn y maes yn cymryd rhan.

Cysylltiadau da yn genedlaethol

Rydym wedi defnyddio ein sefyllfa fel hyrwyddwr cydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain i lobïo'r llywodraeth ynglŷn â deddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y gydberthynas rhwng cymunedau. Cyflawnwyd gwaith mawr gennym ar y **mesur gwrthderfysgaeth,** gan gynnwys lobïo Seneddol a digwyddiadau ymgynghori.

Roedd ein brîff Seneddol ar y mesur yn pwysleisio'r perygl y gallai cynyddu'r cyfnod y gellir dal pobl dan amheuaeth o derfysgaeth cyn eu cyhuddo o 28 diwrnod i 42 diwrnod fynd yn groes i gyfraith hawliau dynol, ac y gallai hefyd fod yn groes i'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol.

Pe bai'r mesur yn cael ei fabwysiadu, fe nodwyd gennym y gallem ddefnyddio'n pwerau cyfreithiol i herio cyfreithlondeb y darpariaethau ac i sefydlu egwyddorion cyfreithiol clir ar ddefnyddio darpariaethau dal cyn achos. Ar 13 Hydref 2008, pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi o blaid cadw'r terfyn yn 28 diwrnod.

Mae'r **amlygrwydd a ddaeth i'r BNP** yn Etholiadau Ewropeaidd 2009 wedi bod yn faes pryder pellach i'r Comisiwn. Ym Mehefin 2009, fe fuom yn gohebu â'r blaid ynglŷn â'r posibilrwydd ei bod wedi torri cyfraith wrth-wahaniaethu. Gyda'n pwerau newydd, gofynnodd y Comisiwn i'r blaid fynd i'r afael ag achosion posibl o dorri'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol. Yn Awst 2009, daeth y Comisiwn ag achos llys yn erbyn y BNP mewn perthynas â chyfansoddiad y blaid a'r meini prawf aelodaeth. Cynhelir yr achos yn Llys Sirol Llundain Ganolog ar 15 Hydref 2009.

Y mesur cydraddoldeb

Mae'r Comisiwn yn credu bod y mesur cydraddoldeb, sy'n mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd, yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu fframwaith cyfreithiol sengl, cyfoes sy'n darparu cyfraith glir a syml sy'n trin anfantais a gwahaniaethu'n fwy effeithiol. Bydd y mesur newydd yn symleiddio ac yn ymgorffori'r amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth wrth-wahaniaethu gyfredol o 35 deddf, 52 offeryn statudol, 13 cod ymarfer ac 16 cyfarwyddeb y CE yn un Ddeddf Cydraddoldeb.

Datblygodd y Comisiwn gynigion ar feysydd polisi allweddol ar gyfer cael yr effaith fwyaf ar y mathau traddodiadol o anfantais, megis cyflog cyfartal a thangynrychiolaeth grwpiau ar yr ymylon yn y gweithle. Ein bwriad oedd mynd i'r afael â mathau mwy sylfaenol o anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol a welir yn y symudedd cymdeithasol llai sy'n gysylltiedig ag ardaloedd mwy difreintiedig a theuluoedd tlotach Prydain. Roedd ein cynigion yn cynnwys cyngor cyfreithiol arbenigol, er enghraifft ar y camau cadarnhaol a ganiateir o dan gyfraith yr UE.

3.3% o boblogaeth yr Alban wedi'u geni y tu allan i'r DU

Aethom ati hefyd i greu amrywiaeth o bapurau safbwyntiau a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwarant gyfansoddiadol o gydraddoldeb, a dileu gwahaniaethu ar sail oed mewn perthynas â nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.

Cyflwynwyd y cynigion hyn i Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO), yr adran o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am lunio'r mesur. Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd bwrdd crwn gyda Chyrff Anllywodraethol a grwpiau sy'n ymwneud â'r gwahanol feysydd cyfrifoldeb, yn ogystal â chyfarfodydd un i un rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn a phenaethiaid llywodraeth leol, seneddwyr allweddol a Gweinidogion.

Yn unol â'r egwyddorion sy'n llywio'i waith, roedd y Comisiwn yn chwilio am fesur na fyddai'n colli tir o safbwynt unrhyw ran o'r gyfraith fel ag y mae. Roeddem am i'r mesur adlewyrchu patrymau gweithio go iawn a chreu newid gwirioneddol i gyfleoedd bywyd. Credwn fod angen i'r ddeddfwriaeth gydnabod pwysigrwydd triniaeth fwy ffafriol mewn perthynas â natur anghymesur deddfwriaeth anabledd, ac osgoi beichiau biwrocrataidd gormodol ar fusnesau.

Wrth i'r mesur gael ei gyhoeddi ar 27 Ebrill 2009, pennodd y Comisiwn grŵp o gyfreithwyr arbenigol i'w archwilio, gan nodi cymalau yr oeddem ni'n eu cefnogi, a rhai yr oedd angen eu diwygio. Fel tyst allweddol yn y pwyllgor mesur cyhoeddus seneddol, croesawodd y Comisiwn y penderfyniad i wahardd y 'cymalau cau ceg' sy'n atal gweithwyr cyflogedig y sector priefat rhag trafod manylion eu cyflogau, a chreu dyletswyddau ar anfantais economaidd-gymdeithasol a chaffael. Cynigodd y Comisiwn ddiwygiadau a oedd yn cynnwys dileu'r oed ymddeol gorfodol a diogelu pobl dan 18 oed yn well rhag gwahaniaethu ar sail oed, yn ogystal â chyflwyno camau gweithredu cynrychioladol i drefn y tribiwnlys.

Bydd gwaith y Comisiwn ar y mesur cydraddoldeb bellach yn canolbwyntio ar gyflawni ei rwymedigaeth statudol i gynhyrchu codau ymarfer, a fydd yn galluogi'r llysoedd i ddehongli'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb newydd, a chyfres o ganllawiau anstatudol, a fydd yn darparu'r wybodaeth ymarferol sydd ei hangen ar y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, cyflogwyr preifat a gweithwyr cyflogedig a'r cyhoedd i roi'r Ddeddf newydd ar waith.

Yn lleol: helpu i feithrin cymunedau iach ac amrywiol

Mae cymunedau cryf yn dechrau ar lawr gwlad, ac mae'r Comisiwn yn cefnogi sefydliadau ledled y wlad sy'n gweithio ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae ein cynllun grantiau wedi dosbarthu **dros £10 miliwn y flwyddyn** i amrywiaeth o brosiectau ledled Prydain. Yn ystod y flwyddyn gyntaf rhoesom arian i 245 o sefydliadau ymhob cwr o Gymru, Lloegr a'r Alban. Roeddent yn cynnwys amrywiaeth eang o brosiectau: yn eu plith roedd llochesi i ddioddefwyr trais domestig, cynlluniau i godi pontydd rhwng y cenedlaethau ac ymchwil i'r rhagfarn y mae pobl hoyw dduon a lleiafrifoedd ethnig yn ei dioddef. Mae mwy o wybodaeth am un o'r sefydliadau a noddir gennym yn yr astudiaeth achos ar ddiwedd y bennod hon.

Cafwyd ymateb heb ei ail pan lansiwyd y cyllid am yr ail flwyddyn ym mis Mai 2009, gyda thros 2,000 o sefydliadau'n gwneud cais am arian. Roedd y diolch am hyn i'r gwaith allestyn ardderchog a wnaed gan yr Uned Grantiau a staff Cymru, rhanbarthau Lloegr a'r Alban. Dyfernir cyllid i brosiectau sy'n cyfrannu tuag at un o'n tri maes blaenoriaeth: cyngor, eiriolaeth, seilwaith a gallu; cysylltiadau da, a chyngor cyfreithiol ar faterion cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mwy na

£10 miliwn

o gyllid grant wedi'i ddosbarthu gan y Comisiwn

Ariannu prosiectau ar lawr gwlad

Trasiedi deuluol ysgogodd Muna Hassan i droi'n ymgyrchwraig. Roedd ei brawd iau wedi mynd yn gaeth i gnoi khat, symbylydd a ddefnyddir gan lawer o ddynion yn y gymuned Somali yn ei chymdogaeth yn Forest Gate, dwyrain Llundain. Datblygodd y bachgen gyflwr iechyd meddwl, ac roedd Muna'n siŵr mai khat oedd achos y salwch. 'Mae khat yn broblem fawr yn y gymuned Somali,' meddai'r wraig 26 oed. 'Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn ei ddefnyddio heb wybod am yr effeithiau drwg.'

Roedd Muna'n benderfynol o godi ymwybyddiaeth o beryglon defnyddio khat, fel na fyddai teuluoedd eraill yn ei chymuned yn dioddef yn yr un modd â'i theulu hi – a dyna lle daeth y Young Foundation i'r fei. Yn sgil grant gan y Comisiwn yn 2008, roedd y sefydliad materion cymdeithasol wedi lansio'r rhaglen 'Uprising' yn unswydd i gefnogi ymgyrchwyr ifanc.

Roedd Muna yn un o 64 o bobl ifanc 19-25 oed o ddwyrain Llundain a gymrodd ran yn y rhaglen, a oedd yn cynnwys seminarau gyda phobl ddylanwadol megis David Lammy AS a chadeirydd y Comisiwn, Trevor Phillips, a chael eu cyflwyno i eraill ym maes gwleidyddiaeth a busnes. Cafodd y profiad ddylanwad mawr ar Muna. 'Mae'r ymgyrch khat bellach wedi cyrraedd rhestr fer gwobrau Sefydliad Sheila McKechnie ar gyfer ymgyrchwyr. Er nad oes yr un ffordd o wybod faint o amser fydd ei angen i ddarbwyllo'r llywodraeth i wahardd y cyffur, mae'n sicr o un peth: 'fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn i gyd heb Uprising.'

Muna Hassan

‘Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn i gyd heb Uprising.’



70%

o bobl yn hapus i'w mab
neu ferch briodi rhywun
o hil neu gred wahanol

Pennod 4
Yr hunan

Mae grymuso'r unigolyn yn bwysig i ni. Nid oes neb am i bobl ragdybio pethau amdanynt oherwydd eu cefndir neu hunaniaeth, pwy bynnag ydynt – dyn gwyn sydd eisiau ailhyfforddi, menyw ddu sydd angen cymorth ar gyfer ei busnes, myfyriwr hoyw, plentyn ifanc o stad dai ddifreintiedig, mam sydd am weithio neu unigolyn anabl sy'n chwilio am gymorth priodol.

Cam cyntaf allweddol yn y broses o rymuso unigolion o bob grŵp cymdeithasol yw sicrhau nad ydynt yn ofni y byddant yn dioddef achosion o wahaniaethu, bwlio ac aflonyddu yn eu bywydau. Rydym yma ar gyfer y 60 miliwn o bobl sy'n byw ym Mhrydain, i sicrhau bod pawb yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Credwn na ddylai neb orfod ymdopi ag effeithiau niweidiol gwahaniaethu ac nad oes lle i ragfarn mewn cymdeithas fodern, agored.

Fel rhan o'n hymrwymiad i greu cymdeithas deg, oddefgar, rydym yn gweithio llawer gyda phobl ifanc, i geisio creu 'cenhedlaeth heb ragfarn'. Rydym wedi ymgymryd â chyfres o achosion cyfreithiol sy'n ceisio sicrhau triniaeth deg i bawb waeth beth fo'u hil, cefndir neu anabledd. Credwn y dylai hawliau dynol fod yn sylfaen ar gyfer cymdeithas lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi; rydym wedi cynnal yr astudiaeth fwyaf erioed o sut mae hawliau dynol yn gweithio yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi derbyn **achrediad y Cenhedloedd Unedig** sy'n dynodi ein bod yn Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws 'A'. Mae hyn yn rhoi statws a chydnabyddiaeth ryngwladol i'r Comisiwn fel corff annibynnol sy'n gyfrifol am hyrwyddo hawliau dynol ym Mhrydain.

Ein nod yn awr yw datblygu'r agenda hawliau dynol, gan sicrhau bod pob gwasanaeth cyhoeddus yn canolbwyntio ar anghenion unigolion.

Gweithio gyda phobl ifanc

Un o'n blaenoriaethau allweddol yw gweithio gyda phobl ifanc i greu 'cenhedlaeth heb ragfarn'. Mae hyn yn hanfodol os ydym am ddatblygu cymdeithas lle mae gan bob unigolyn gyfle i gael a byw bywyd boddhaus. Mae tystiolaeth yn dangos mai dosbarth cymdeithasol yn hytrach na gallu ac ymdrech sy'n parhau i bennu potensial plentyn i raddau helaeth. Mae hil, rhyw ac anabledd hefyd yn gallu bod yn rhwystrau sylweddol i sicrhau swyddi da. Fel rhan o'n cynllun strategol tair blynedd, bydd y Comisiwn yn creu rhaglen o weithgareddau gydag ysgolion, rheoleiddwyr addysg, y sector ieuenctid a phobl ifanc eu hunain.

Roedd ein cystadleuaeth **Celfyddyd yr Ifanc ym Mhrydain** yn gwahodd pobl ifanc 11-19 oed i greu lluniau yn mynegi eu teimladau am fyw ym Mhrydain heddiw. Cyflwynodd pobl ifanc o bob cefndir o Gymru, Lloegr a'r Alban waith yn adrodd eu hanes: pwy oedden nhw, beth roedden nhw'n ei feddwl, eu gobeithion a'u hofnau, amcanion ac uchelgais. Derbyniwyd 1,639 o geisiadau ym mlwyddyn academaidd 2008–2009. Cafodd y 100 a ddaeth i'r rhestr fer eu harddangos yng Nghanolfan y South Bank yn Llundain, lle gwobrwywyd y 10 enillydd mewn seremoni. Roedd beirniaid y gystadleuaeth yn cynnwys yr artist Alison Lapper a chadeirydd y Comisiwn, Trevor Phillips.

Llwyddodd **gwersyll haf Our Space** i ddenu 90 o bobl ifanc 14 a 15 oed o bob cwr o Brydain at ei gilydd yn Ardal y Llynnoedd. Roedd y gwersyll gweithgareddau pum niwrnod yn cynnwys pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol. Bu'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyfeiriannu a chanŵio, yn ogystal â gweithdai dwys ar bynciau fel amrywiaeth ac arweinyddiaeth. Y nod yw darparu sgiliau, gwybodaeth a brwdfrydedd i bobl ifanc fel y gallant wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu hysgolion a chymunedau – i fod yn arweinwyr cydraddoldeb y dyfodol.

Daeth sawl un o'r bobl ifanc a fu yng ngwersyll haf 2008 yn ôl i rannu eu profiadau ac i roi arweiniad i'r gwersyllwyr newydd.

1/3 o fenywod Mwslimaidd sy'n gweithio yn gweld eu hunain fel prif weithredwyr y dyfodol

Menter arall oedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc oedd **Staying On,** ymateb i Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn golygu y bydd pobl ifanc yn Lloegr yn aros mewn addysg a hyfforddiant nes eu bod yn 17 oed o leiaf o 2013 ymlaen, gan godi i 18 oed erbyn 2016.

Roedd adroddiad y fenter yn rhoi cipolwg cynhwysfawr iawn ar ddyheadau addysg a gyrfa pobl ifanc 14 i 18 oed. Roedd yr adroddiad yn cynnwys arolwg o dros 1,000 o bobl ifanc, a gwelwyd bod llawer ohonynt yn ofni methu. Un rheswm posibl am hyn oedd y pwyslais gormodol ar gyrhaeddiad academaidd ar draul hyfforddiant a phrentisiaethau galwedigaethol.

Herio rhagfarn

Gyda phrosiectau arloesol fel **Rhestr Rym Menywod Mwslimaidd,** rydym wedi herio rhai o'r stereoteipiau niweidiol sy'n gysylltiedig â rhai grwpiau cymdeithasol. Roedd y Rhestr yn dathlu'r 100,000 o fenywod Mwslimaidd sy'n gweithio ym Mhrydain ar hyn o bryd. Roedd yn talu teyrnged i'r rhai sydd ar y ffordd i'r brig neu eisoes wedi cyrraedd y brig yn eu maes dewisol, boed hynny yn y byd busnes, y gwasanaeth sifil, y celfyddydau, y cyfryngau neu'r sector cyhoeddus.

Cyhoeddwyd y rhestr o fenywod arbennig ym mis Mawrth 2009. Nod y Rhestr oedd herio rhai o'r stereoteipiau am fenywod Mwslimaidd, a phwysleisio'r ffaith bod ganddynt yr un uchelgeisiau a'u bod yn wynebu'r un heriau â'r holl fenywod sy'n gweithio: llwyddo mewn swydd dda ac, yn aml iawn, cyfuno priodas a bod yn fam gyda gyrfa sy'n rhoi boddhad. Gobeithio y bydd y Rhestr yn rhwydwaith cymdeithasol proffesiynol i fenywod Mwslimaidd sy'n gweithio, gan eu galluogi i elwa ar brofiadau ei gilydd yn y gweithle.

Cyrhaeddodd Rhestr Rym Menywod Mwslimaidd restr fer un o wobrau PRWeek.

Nod y prosiect ymchwil a pholisi **'Promoting the Safety and Security of Disabled People'** oedd amlygu'r trais a'r elyniaeth y mae pobl anabl yn gorfod eu hwynebu. Gellid ystyried hyn fel trosedd casineb yn ein barn ni. Nid yw llawer o bobl anabl ym Mhrydain yn teimlo'n ddiogel er bod hyn yn hawl sylfaenol y dylai pawb ei chael.

Gallant wynebu ymddygiad ymosodol yn eu bywydau bob dydd, ar y stryd, ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn y gwaith, yn y cartref, neu ar y we. Mae llawer o bobl anabl yn dechrau derbyn hyn fel rhan o fywyd bob dydd. Yn aml, maent yn cael eu gorfodi i fynd allan o'u ffordd i osgoi'r profiadau hyn, gan gyfyngu eu bywydau eu hunain. Mae hyn yn enghraifft amlwg a gweladwy o wrthod hawl rhywun i ryddid mewn cymdeithas fodern. Rydym yn trafod argymhellion y prosiect gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron ac asiantaethau allweddol eraill.

Yn yr Alban, rydym wedi cefnogi'r broses o gyflwyno a phasio mesur i fynd i'r afael â throsedd casineb yn erbyn pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw a thrawsrywiol.

Rydym wedi cefnogi amrywiaeth o achosion cyfreithiol sydd wedi sefydlu hawliau i unigolion a fydd yn golygu na fydd modd gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail hil, cefndir neu anabledd. Roedd achos **Allen v Royal Bank of Scotland** yn ymwneud ag unigolyn, Mr Allen, nad oedd yn gallu cael mynediad i'w gangen leol o Fanc Brenhinol yr Alban. Ar sawl achlysur, roedd wedi gorfod trafod manylion ei gyfrif allan ar y stryd. Cynhelir apêl yr achos hwn ym mis Tachwedd.

Cytunodd y llys bod y driniaeth a gafodd Mr Allen yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail anabledd. Dyfarnwyd £6500 iddo – y taliad iawndal uchaf erioed ar y pryd mewn achos o'r math hwn. Cyflwynodd y barnwr waharddeb hefyd yn gorfodi RBS i wneud newidiadau ffisegol i'w eiddo fel bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i'r adeilad. Mae'r achos hwn yn golygu y bydd rhaid i gwmnïau feddwl eto am sut maent yn trin cwsmeriaid anabl a sut gallant sicrhau eu bod yn cael mynediad teg a chyfartal i wasanaethau.

Fe wnaethom ymyrryd i ddiogelu cyllid ar gyfer ailbennu rhywedd trwy ohebu gyda'r GIG ar ei bolisi Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. Roedd triniaeth ar gyfer ailbennu rhywedd, ac eithrio cwnsela, wedi'i gategoreiddio fel blaenoriaeth isel ac nid oedd yn derbyn cyllid fel mater o drefn. Ysgrifennwyd at yr Ymddiriedolaeth yn egluro gofynion dyletswyddau'r sector cyhoeddus. Yn sgil hynny aseswyd effaith y polisi hwn, a daethpwyd i'r casgliad y gallai gael effaith negyddol bosibl o ran rhywedd. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad gyda chynrychiolwyr pobl drawsrywiol.

90% o bobl ag anawsterau dysgu wedi profi aflonyddu neu fwlio

Mae ein tîm cyfreithiol hefyd wedi gweithio i sicrhau bod pobl anabl yn cael mynediad cyfartal i gyfiawnder. Roedd achos **R(B) v Director of Public Prosecutions** yn adolygiad barnwrol i herio penderfyniad Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i roi'r gorau i erlyn achos honedig o ymosod ar B ar y sail fod cyflwr iechyd meddwl B yn tanseilio ei ddibynadwyedd fel tyst. Dadleuodd y Comisiwn fod rhaid i'r CPS roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl. Mynegwyd pryderon hefyd bod rhagdybiaethau am bobl â chyflyrau iechyd meddwl yn eu hatal rhag mynediad llawn i gyfiawnder.

Cadarnhaodd yr Uchel Lys fod penderfyniad y CPS i ollwng yr achos yn anghywir, naill ai oherwydd ei fod wedi camddarllen y dystiolaeth feddygol neu ei fod wedi stereoteipio'n ddi-sail na all rhywun â hanes o broblemau iechyd meddwl fod yn dyst dibynadwy mewn llys. Yn dilyn y penderfyniad hwn, addawodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol barhau i weithio gyda'r CPS i helpu i sicrhau bod dioddefwyr a thystion â chyflyrau iechyd meddwl yn cael mynediad priodol i gyfiawnder.

Rhoi hawliau dynol ar waith

Ein **Hymchwiliad Hawliau Dynol** yw'r gwaith ymchwil mwyaf cynhwysfawr hyd yma i ddeng mlynedd gyntaf y Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd yn cyflwyno tystiolaeth gan bron i 3,000 o unigolion a sefydliadau yn cynnwys darparwyr gwasanaethau, defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau eiriolaeth, arolygiaethau, academyddion ac arbenigwyr cyfreithiol, gwleidyddion, y cyfryngau a Gweinidogion y Llywodraeth.

Roedd yr Ymchwiliad yn gosod y sylfaen ar gyfer gwaith y Comisiwn ar hawliau dynol. Ein nod yw hyrwyddo dealltwriaeth o bwysigrwydd hawliau dynol; annog arferion da mewn perthynas â hawliau dynol; ac annog awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol. Cafodd yr Ymchwiliad ei lansio ym mis Ebrill 2008 a'i gadeirio gan y Fonesig Nuala O'Loan. Y nod oedd cyflwyno cyfres ddibynadwy o ganfyddiadau am gyflwr hawliau dynol ym Mhrydain, a gwneud argymhellion am sut i symud yr agenda hawliau dynol ymlaen.

Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr Ymchwiliad gan unigolion, sefydliadau a darparwyr gwasanaethau, yn seiliedig ar eu profiadau. Comisiynwyd ymchwil i feysydd penodol a nodwyd gennym hefyd, a chynhaliwyd cyfres o baneli i wrando ar dystiolaeth gan dystion gwadd.

Canfu'r Ymchwiliad fod mwyafrif llethol pobl Prydain yn cefnogi deddfwriaeth i ddiogelu hawliau dynol, a bod defnyddwyr a darparwyr yn elwa pan fydd hawliau dynol yn cael eu hystyried wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn ôl arolwg Ipsos MORI o bron i 2,000 o oedolion a gomisiynwyd fel rhan o'r Ymchwiliad, dywedodd 84 y cant o bobl eu bod am weld hawliau dynol yn cael eu diogelu yn y gyfraith iddynt hwy a'u teuluoedd ac roedd 81 y cant o bobl yn gweld hawliau dynol fel ffactor bwysig o ran creu cymdeithas decach.

Gwnaed rhai argymhellion ar sut i ddatblygu'r agenda hawliau dynol yn y DU. Roedd y rhain yn cynnwys annog y rhai sy'n arwain mewn awdurdodau lleol i helpu i sicrhau bod eu staff yn blaenoriaethu hawliau dynol; darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant ac adnoddau gwell i'r sector cyhoeddus; a helpu awdurdodau cyhoeddus a grwpiau gwirfoddol i ysytried hawliau dynol yn eu prosesau llunio penderfyniadau.



75%

o **fenywod Mwslimaidd** yn meddwl ei bod hi'n bosibl sicrhau cydbwysedd rhwng gyrfa lwyddiannus a theulu

Cenhedlaeth heb ragfarn

Mewn llannerch coedwig ar lannau Llyn Windermere, mae Aisha Nageen yn hongian 15 troedfedd o'r ddaear. Mae pump o bobl ifanc eraill yn ei chadw rhag syrthio trwy ddal pen arall yr harnes rhaff.

Dyma un o'r gweithgareddau cyffrous ar gyfer pobl ifanc 14-15 oed yng ngwersyll haf y Comisiwn – Our Space. Mae dros 90 o bobl ifanc o bob cwr o'r wlad yn cymryd rhan yn y gwersyll pum niwrnod, yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau awyr agored yn ogystal â gweithdai yn edrych ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Nid oes rhaid talu i ddod i'r gwersyll, ond mae disgwyl i'r bobl ifanc fod â diddordeb gwirioneddol yn y materion hyn. Mae Aisha, merch 14 oed aeddfed a hyderus iawn, yn aelod o gyngor ieuenctid Sheffield, ac yn awyddus i wneud mwy o waith ymgyrchu. 'Rwy'n hoffi ceisio gwneud pethau'n well i bobl eraill.'

Mae hefyd yn ffordd wych i bobl ifanc wneud ffrindiau newydd o bob cwr o'r wlad, ac o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol. 'Gartref, rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn cymdeithasu gyda merched gwyn, Catholig eraill o'r ysgol,' meddai Hannah O'Gorman, 15 oed o Birmingham. 'Mae hyn wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor hawdd yw cymdeithasu gyda llawer o bobl wahanol.'

Our Space

‘Mae hyn wedi gwneud i mi sylweddoli pa mor hawdd yw cymdeithasu gyda llawer o bobl wahanol.’

Ein gwaith ni yw torri anghydraddoldeb i lawr, adeiladu cyfleoedd a chefnogi cymdeithas ddinesig lle mae tegwch a hawl yr unigolyn i fywyd o urddas a pharch nid yn unig yn ddelfryd ond yn ffaith.

Rhestr o gyhoeddiadau

Mae'r rhestr ganlynol o gyhoeddiadau ar gael yn llawn ar ein gwefan **www.equalityhumanrights.com**

Sex and Power 2008

Pwy sy'n rhedeg Cymru? (2009)

Gweithio'n Well: Cyfnod Un (2009)

Adroddiad ar yr Ymchwiliad i Wahaniaethu ar sail Hil yn y Diwydiant Adeiladu (2009)

Financial Services Inquiry (2009)

Asesiad y Sector Cyhoeddus o ddyletswydd yr Adran Gwaith a Phensiynau, drwy'r Ganolfan Byd Gwaith (2009)

From Safety Net to Springboard (2009)

Mapio'r Bylchau 1 (2007)

Mapio'r Bylchau 2 (2009)

Eich Hawl i Hedfan: canllaw gam wrth gam (2009)

Police and Racism (2009)

Social Housing Allocation and Immigration Communities (2009)

Gypsies and Travellers: simple solutions for living together (2009)

Room for Manoeuvre? (2009)

Staying On (2009)

Promoting the Safety and Security of Disabled People (2009)

Ymchwiliad Hawliau Dynol (2009)

Cysylltiadau

Cymru

Rhadbost
RRLR-UEYB-UYZL
3ydd Llawr
3 Sgwâr Callaghan
Caerdydd CF10 5BT

Llinell Gymorth:

Prif rif
0845 604 8810

Ffôn testun
0845 604 8820

Ffacs
0845 604 8830

Lloegr

Freepost
RRLL-GHUX-CTRX
Arndale House
Arndale Centre
Manchester M4 3AQ

Llinell Gymorth:

Prif rif
0845 604 6610

Ffôn testun
0845 604 6620

Ffacs
0845 604 6630

Yr Alban

Freepost
RRLL-GYLB-UJTA
The Optima Building
58 Robertson Street
Glasgow G2 8DU

Llinell Gymorth:

Prif rif
0845 604 5510

Ffôn testun
0845 604 5520

Ffacs
0845 604 5530

Amserau agor y llinell gymorth:
Llun-Gwener: 9am-5pm

www.equalityhumanrights.com

© Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2009

Cynlluniwyd gan Precedent www.precedent.co.uk

www.equalityhumanrights.com

Comisiwn
Cydraddoldeb a Hawliau Dynol